# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Raglan V.C. Primary School

Dyddiad yr arolygiad: 23/02/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r pennaeth a staff yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Rhaglan yn darparu amgylchedd gwresog a chroesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal. Mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion ac yn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch a goddefgarwch tuag at ei gilydd.

Mae grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar newid i ddwyn  manteision ar y cyd i'r ysgol a'r gymuned ehangach. Maent yn cynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol â grwpiau a busnesau lleol i gynhyrchu cymorth a chyllid, ac mae'r ymgysylltu hwn yn darparu profiadau gweithio gwerthfawr a bywyd go iawn ar gyfer disgyblion.

Mae arweinwyr a staff yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill i ddarparu cymorth buddiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn helpu llawer o ddisgyblion ag ADY i wneud cynnydd da.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a digidol yn dda. Maent yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau mathemategol ond nid ydynt yn cael cyfleoedd rheolaidd i gymhwyso'u medrau trwy weithgareddau datrys problemau a rhesymu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol, foesol a diwylliannol. Mae disgyblion yn ennill dealltwriaeth gynyddol o amrywiaeth o ffydd a diwylliannau, ac mae hyn yn eu helpu i ddod yn ddysgwyr empathig a pharchus sy'n gwerthfawrogi credoau a thraddodiadau pobl eraill.

At ei gilydd, mae'r addysgu yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu dilys sy'n ennyn ymgysylltiad disgyblion ac yn eu cefnogi i feithrin eu medrau yn gynyddol. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn lefel yr her mewn gwersi, sy'n cyfyngu ar ddatblygiad disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau systematig i olrhain a monitro'r cynnydd a wna disgyblion. Maent yn defnyddio ystod o weithgareddau monitro yn briodol i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i gefnogi strategaethau gwella'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn cefnogi gwaith arweinwyr yn dda. Maent yn gweithio'n agos gydag arweinwyr i reoli presenoldeb disgyblion yn effeithiol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:**

A1 Mireinio addysgu i sicrhau her gyson a phriodol sy'n datblygu medrau disgyblion wrth ddysgu'n annibynnol

A2 Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau datrys problemau mathemategol a rhesymu, mewn cyd-destunau bywyd go iawn

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2026